Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Aran Hall

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Aran Hall yn ysgol arbennig annibynnol breswyl i ddysgwyr ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac ymddygiad heriol, wedi'i lleoli gerllaw tref Dolgellau yng ngogledd Cymru. Mae'n rhan o grŵp SENAD.

Nod yr ysgol yw darparu amgylchedd gofalgar ac anogol, gyda chwricwlwm eang a chytbwys, sydd:

- yn lleihau ymddygiad heriol
- yn cynyddu cyfathrebu swyddogaethol
- yn datblygu medrau hunanofal a medrau byw'n annibynnol
- yn cynyddu cyfranogiad cymunedol ac integreiddio cymdeithasol

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau â Phrifysgol Nova Southeastern yn Unol Daleithiau America a Phrifysgol Bangor yng Nghymru i ddatblygu medrau ac arbenigedd ei staff wrth ddefnyddio dadansoddi ymddygiadol cymhwysol i gynllunio, monitro ac arfarnu ymddygiad dysgwyr ac i lywio dulliau addysgu.

Ar hyn o bryd, mae 12 disgybl rhwng 14 a 18 oed ar y gofrestr. Bechgyn yw pob un ohonynt. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan wyth disgybl. Mae gan bob disgybl leoliad 52 wythnos. Gosodir dau ddisgybl gan awdurdodau lleol Cymru a deg gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2003.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Mae cryfderau'r ysgol fel a ganlyn:**

- Mae staff yn creu amgylchedd dysgu anogol sy'n rhoi hyder i ddisgyblion ac yn hybu llwyddiant. Mae staff a disgyblion yn mwynhau perthnasoedd gwaith cadarnhaol.
- Mae disgyblion yn ymroi'n dda i'w rhaglenni dysgu. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn falch o'u cyflawniadau.
- Gydag amser, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda. Maent yn groesawgar tuag at ymwelwyr ac yn gwrtais i'w gilydd.
- Mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra i anghenion unigol y disgyblion.
- Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau byw'n annibynnol y disgyblion.
- Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn.

## Meysydd i'w datblygu

**Mae meysydd yr ysgol i'w datblygu fel a ganlyn:**

- Dim ond tua hanner y pynciau sy'n cael eu hategu gan gynlluniau gwaith priodol o fanwl.
- At ei gilydd, mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol yn briodol i anghenion disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn perthyn i amcanion sydd wedi'u hamlinellu mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Caiff disgyblion gyfleoedd prin i gyfrannu at adolygu'r targedau hyn yn ffurfiol.
- Mae'r ysgol wedi rhoi ystod fechan o asesiadau gwaelodlin ar waith i nodi cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu mewn medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ar waith ar gyfer pob disgybl ac mae'r profion hyn yn cael eu cydlynu a'u cymhwyso'n anghyson.
- Mae arweinwyr yn nodi ac yn bodloni anghenion datblygu athrawon yn dda o ran rheoli ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw cynllunio a chydlynu datblygiad proffesiynol i gefnogi athrawon â materion yn ymwneud â'r cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol.
- Mae gan yr ysgol adroddiad hunanarfarnu sy'n cysylltu'n dda â chynllun gwella manwl yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1. Ddatblygu a defnyddio cynlluniau gwaith manwl a phriodol ar gyfer pob maes pwnc

A2. Gwella cynlluniau addysg unigol i gynnwys targedau sy'n perthyn i'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig

A3. Gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael asesiad gwaelodlin a ddefnyddir gan staff i osod gwaith sy'n cyfateb i anghenion dysgu pob disgybl

A4. Gwneud yn siŵr bod athrawon yn gallu cael hyfforddiant wedi'i gynllunio a'i gydlynu mewn perthynas â meysydd y cwricwlwm y maent yn gyfrifol amdanynt

A5. Gwella'r adroddiad hunanarfarnu fel ei fod yn fwy arfarnol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella asesu i sicrhau bod athrawon yn rhoi adborth manwl i ddisgyblion fel eu bod yn gwybod sut i wella'u gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn dilyn yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi cyflwyno polisi marcio diwygiedig sy'n cyflwyno disgwyliadau clir ar gyfer staff a disgyblion ynghylch asesu gwaith. Mae athrawon wedi rhoi'r polisi ar waith ar draws y cwricwlwm. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi cyngor defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r cyngor hwn ac yn cywiro'u gwaith fel y mae staff yn gofyn iddynt wneud. Mae arweinwyr wedi dechrau monitro effaith y polisi trwy graffu defnyddiol ar waith disgyblion ac maent wedi nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu wrth gymhwyso'r polisi. Mae arweinwyr wedi cynnwys y meysydd hyn i'w datblygu yng nghynllun gwella'r ysgol.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod arfer orau ar gyfer cynllunio a datblygu cynlluniau gwaith ar waith ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cynlluniau gwaith gan oddeutu hanner y meysydd dysgu. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cynhyrchu'n fasnachol, wedi'u datblygu gan yr ysgol neu wedi'u haddasu o enghreifftiau gan ysgolion eraill. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynlluniau gwaith yn hynod fanwl ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgu disgyblion o lefel 8 graddfa P i L6 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mewn Saesneg, er enghraifft, mae agweddau sy'n ymwneud â dadansoddi iaith, ysgrifennu creadigol a medrau siarad a gwrando. Mae disgwyliadau clir y bydd disgyblion yn llwyddo a mynegir y rhain ar ffurf datganiadau "Byddaf i". Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio fel hyn ar draws holl feysydd y cwricwlwm, nac yn ddigon da ar gyfer holl ystod galluoedd disgyblion.

**Argymhelliad 3: Datblygu ymhellach y broses arsylwi gwersi i gynnwys arfarniad o'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi gwella'r broses arsylwi gwersi i gynnwys ffocws clir ar safonau addysgu a'r deilliannau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Mae dysgwyr yn defnyddio'r dystiolaeth uniongyrchol hon i roi sylwadau ysgrifenedig defnyddiol i athrawon ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu, cynnydd, a medrau.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o arsylwi ar wersi i osod targedau clir yng nghynllun datblygu'r ysgol ar gyfer gwella addysgu a safonau disgyblion.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgolion yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgolion yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgolion yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgolion yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgolion yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgolion yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Aran Hall |
| **Rhif yr ysgol** | 6616022 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 08/07/2015 |
| **Perchennog** | SENAD |
| **Staff** | 1 Pennaeth<br>3 Athro<br>4 Cynorthwyydd ystafell ddosbarth<br>50 o staff preswyl<br>5 o staff cynorthwyol |
| **Nifer y disgyblion** | 12 |
| **Darpariaeth** | Preswyl 52 Wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac ymddygiad heriol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/03/2010 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 06/05/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 08/09/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |